OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 58

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016

## RHAN 10

Datblygiad Anawdurdodedig

**Dogfennau ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt**

**50.**—(1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio perthnasol sicrhau bod copi o'r canlynol ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt ar bob adeg resymol yn y lle y cedwir y gofrestr briodol (neu ran berthnasol o'r gofrestr)—

(a) pob hysbysiad rheoliad 42 a roddwyd gan yr awdurdod;

(b) pob hysbysiad a gafwyd gan yr awdurdod o dan reoliad 46(2)(d); ac

(c) pob datganiad a phob gwybodaeth bellach a gafwyd gan yr awdurdod o dan reoliad 47(a);

a rhaid i gopïau o'r dogfennau hynny barhau i fod ar gael felly am gyfnod o 2 flynedd neu hyd y byddant yn cael ei gosod yn Rhan 2 o'r gofrestr yn unol â pharagraff (2), pa bynnag un sy'n digwydd gyntaf.

(2) Pan fo manylion am unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd gan Weinidogion Cymru neu arolygydd o dan adran 177 o Ddeddf 1990 yn cael eu rhoi yn Rhan 2 o'r gofrestr(**1**), rhaid i'r awdurdod cynllunio perthnasol gymryd camau i sicrhau bod y Rhan honno hefyd yn cynnwys copi o unrhyw rai o'r dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) sy'n berthnasol i'r datblygiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

(3) Mae darpariaethau rheoliad 24(2) a (3) yn gymwys i gais tybiedig a chaniatâd cynllunio a roddir o dan adran 177 o Ddeddf 1990 fel y maent yn gymwys i gais am ganiatâd cynllunio a rhoi caniatâd cynllunio o dan Ran 3 o Ddeddf 1990.

(**1**) *Gweler* adran 177(8) o Ddeddf 1990.